# Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Teitl**:<br>Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | **Rhif Cyfeirnod yr Asesiad**<br>*(I'w lenwi gan Uned y Gymraeg)*:<br>16/07/02 |
| **Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen**: | **Karen Dawson-Morris** |
| **Dyddiad**: | **25/7/16** |
| **Arweinydd polisi**: | Rae Cornish |
| **Manylion cyswllt**: | 02920 825369 |

**Math o Raglen/Prosiect**

- ☒ Polisi
- ☐ Deddfwriaeth
- ☐ Grant
- ☐ Newid busnes
- ☐ Seilwaith
- ☐ Adeiladu, Cyfalaf
- ☐ TGCh
- ☐ Arall (Nodwch isod)
- ☐ Prosiect neu raglen
- ☐ Ymchwil, gwerthusiad
- ☐ Gwasanaethau
- ☐ Contractau, tendrau

**Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?**

Os yw'n llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).

| O dan £25k | £25k - £49k | £50 - £249k | £250k - £1miliwn | Dros £1miliwn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |

**O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r Gymraeg?**

Costau cyfieithu'r ddogfen ganllawiau a'i gweithredu.

**Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?**

| Hyd at 1 flwyddyn | Hyd at 2 flynedd | Hyd at 5 mlynedd | Hyd at 10 mlynedd | Dros 10 mlynedd | Anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:**

Ymgynghoriad Cyhoeddus – 1 Awst – 10 Hydref 2016

Digwyddiadau Ymgysylltu – Medi – Hydref 2016
Cyhoeddi'r Strategaeth derfynol a'r cynllun cyflawni – 4 Tachwedd 2016
Adolygu'r Strategaeth a chyhoeddi adroddiad blynyddol – Yn flynyddol (pob mis Tachwedd nes 2021)

**CAM 1: CYNLLUNIO**

**Beth yw nodau ac amcanion y polisi?**
**Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?**

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth sy'n cyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf.

O dan adran 3 o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth ("strategaeth genedlaethol") sy'n -

a) pennu amcanion a fydd, os y'u cyflawnir, ym marn Gweinidogion Cymru, yn cyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon;
b) pennu o fewn pa gyfnodau y bydd Gweinidogion Cymru yn disgwyl cyflawni'r amcanion a bennir;
c) dynodi'r camau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni'r amcanion a bennir.

Mae diben y Ddeddf yn cael ei ddiffinio yn adran 1 o'r Ddeddf, sef gwella –

a) trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
b) trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestic a thrais rhywiol; ac
c) y cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Rhaid i'r Strategaeth Genedlaethol gyntaf gael ei chyhoeddi heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl dyddiad cynnal yr etholiad cyffredinol cyntaf ar ôl cychwyn adran 3 o'r Ddeddf.

Ceir chwe amcan, a gyda'i gilydd, maent yn cwmpasu ein targedau ar gyfer y pum mlynedd nesaf:

Amcan 1: Cynyddu ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin rhywiol a thrais rhywiol ar draws Poblogaeth Cymru.

Amcan 2: Gwella addysg am berthnasoedd iach a chydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Amcan 3: Herio'r cyflawnwyr, eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd a darparu ymyriadau a chymorth i newid eu hymddygiad.

Amcan 4: Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cael eu hyfforddi i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr.

| |
|---|
| Amcan 5: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy’n seiliedig ar gryfderau, yn cael eu harwain gan anghenion ac yn ymateb i rywedd ledled Cymru<br><br>Amcan 6: Cydweithio fel sector i ddeall a diwallu anghenion ein cymunedau, gan gynyddu cynaliadwyedd a gallu’r sector<br><br>Fel rhan o'r amcanion hyn, rydyn ni wedi cynnwys camau gweithredu lefel uchel. Bydd rhain yn cael eu cefnogi gan gynllun cyflawni a fydd yn cynnwys mwy o fanylder ynghylch y gweithgareddau. Rydyn ni’n anelu i gyhoeddi'r cynllun cyflawni ar y cyd â'r strategaeth derfynol ym mis Tachwedd a allai hefyd gynnwys y dangosyddion cenedlaethol. |
| **Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?**<br>**a**<br>**Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?** |
| Nodwyd y gofynion ar gyfer Strategaeth Genedlaethol mewn deddfwriaeth (fel y nodir uchod) ac felly pe bai Gweinidogion Cymru yn methu â chyhoeddi'r strategaeth erbyn y dyddiad hwn byddai Gweinidogion Cymru yn torri eu dyletswydd statudol.<br><br>Pe na bai'r Strategaeth Genedlaethol yn cael ei rhoi ar waith ar ôl ei chyhoeddi, byddai'n cael effaith sylweddol ar ein gallu i gyflawni'r amcanion, sydd wedi eu llunio i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac amddiffyn a chefnogi’r rhai sy’n dioddef, y goroeswyr, a'u teuluoedd. |
| **A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg - Iaith fyw: Iaith byw?** |
| Nid oes cysylltiadau arwyddocaol rhwng y Strategaeth a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg. |
| **Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar y Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**<br>h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg? |
| Mae'r Strategaeth hon yn fframwaith ar lefel uchel, ond bydd y cynllun cyflawni a fydd yn ei chefnogi yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod cefnogaeth i ddioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gael yn Gymraeg i'r rhai sydd angen y gefnogaeth honno.<br><br>Mae'r ddogfen ymgynghori ddrafft hefyd yn cynnwys y cwestiynau canlynol: Pa gyfleoedd y mae'r strategaeth hon yn eu cynnwys i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg? A oes gennych unrhyw bryderon y gallai'r strategaeth hon gael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Byddwn yn defnyddio'r ymatebion i'r cwestiynau hyn i ddatblygu'r asesiad effaith hwn ymhellach cyn ei gyhoeddi'n derfynol. |

| |
|---|
| |
| **Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?** |
| Mae hon yn Strategaeth ar gyfer pawb yng Nghymru, ond bydd o ddiddordeb arbennig i'r canlynol:<br><br>• Awdurdodau Perthnasol o dan y Ddeddf:<br>    o Awdurdodau Lleol;<br>    o Byrddau Iechyd Lleol;<br>    o Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol;<br>    o Awdurdodau Tân ac Achub;<br>• y trydydd sector arbenigol yng Nghymru<br>• Goroeswyr;<br>• yr Heddlu;<br>• y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu;<br>• Gwasanaethau addysg;<br>• Sefydliadau tai;<br>• Asiantaethau troseddu a chyfiawnder; a<br>• Gwasanaethau prawf.<br><br>O ran rhanddeiliaid, gallai hyn gynnwys y 284,000 o weithwyr sy'n gweithio yn yr adrannau perthnasol o wasanaethau cyhoeddus Cymru a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau arbenigol yn y trydydd sector hefyd. Mae'r 29% o weithlu'r gwasanaeth cyhoeddus a'r 31% o'r gweithlu gwirfoddol sy'n siarad Cymraeg yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (ONS) yn arbennig o berthnasol i'r asesiad hwn.<br><br>Bydd gofyn i’r awdurdodau perthnasol, yn eu tro, gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Bydd angen i weithwyr sy'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin rhywiol a thrais rhywiol sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau perthnasol sy'n gymwys i'w hawdurdod penodol nhw pan fônt yn gweithio â chydweithwyr, defnyddwyr y gwasanaeth neu gynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus eraill sy'n siarad Cymraeg. |
| **Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch y manylion llawn at ddibenion cadw cofnod.**<br>(Gellid defnyddio hwn yn Nhribiwnlys y Gymraeg yn y dyfodol) |
| |
| **Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**<br>e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, pennu rhanddeiliaid neu ymgyngoreion, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)? |
| Bydd angen i ni sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg wrth drefnu |

digwyddiadau ymgysylltu.

## CAM 2: NODI AC ASESU EFFEITHIAU

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith**

**Crynhowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.**

**Effeithiau cadarnhaol:**

Rydyn ni'n credu y gallai'r Strategaeth, a'r cynllun cyflawni yn benodol, gael ychydig o effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

**Effeithiau negyddol:**

Nid ydym yn credu bod y Strategaeth yn cael effaith andwyol sylweddol ar y Gymraeg.

**A fydd cynnydd yn y cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?**

Na fydd.

**Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:**

Yn ôl cyfrifiad 2011, mae 562,016 (19%) o ddinasyddion Cymru yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r nifer a'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn y Sector Cyhoeddus yn uwch na chyfartaledd y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Mae'r ystadegau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesiad hwn i'w gweld isod.

**% o bobl mewn gwaith sydd dros 16 oed ac sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, fesul sector, yn ystod y flwyddyn hyd at 30 Medi 2014**

| | Gallu siarad Cymraeg | Ddim yn siarad Cymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Preifat | 30.3% | 69.7% | 100% |
| Cyhoeddus | 21.6% | 78.4% | 100% |
| Gwirfoddol | 28.5% | 71.5% | 100% |
| Ddim ar gael | 26.6% | 73.4% | 100% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pob sector | 24.2% | 75.8% | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg poblogaeth blynyddol *2016 Q1*

| | |
|---|---|
| **Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar y Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?** | Cadarnhaol: ☐<br>Negyddol: ☐<br>Niwtral: ☒<br>Anhysbys: ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| **Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad** | 1. Dim newid sylweddol | ☒ |
| | 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau | ☐ |
| | 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru | ☐ |
| | 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno | ☐ |

***Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod* – atebwch y canlynol:**
**Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:**

**Amherthnasol**

**Os ydych yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu neu ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych chi'n dymuno gofyn i'ch rhanddeiliaid ynghylch yr Asesiad Effaith o'r Gymraeg a materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg?**

Yn ogystal â'r ymgynghoriad ffurfiol, rydyn ni'n trefnu rhaglen eang o ddigwyddiadau ymgysylltu yn ystod y cyfnod ymgynghori i sicrhau ein bod yn gallu clywed barn pob rhanddeiliad wrth benderfynu ar y strategaeth derfynol. Bydd hyn yn cynnwys gweithdai rhanbarthol ym mis Medi, lle byddwn yn holi am farn ar yr amcanion, y camau gweithredu a'r gweithgareddau yr ydym yn rhagweld eu cynnwys yn y cynllun cyflawni.

Rydyn ni wedi gofyn cwestiwn penodol yn yr ymgynghoriad ffurfiol (gweler uchod) a byddwn yn sicrhau bod y cwestiwn hwn yn cael ei ofyn yn y digwyddiadau ymgysylltu hefyd.

## CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO

**Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?**

**Sut y byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?**

| |
|---|
| |
| **Amlinellwch sut y byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?** |
| |
| **Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg** |
| |

**4. Datganiad**

| |
|---|
| **Arweinydd polisi:**<br><br>***Dileer fel y bo'n briodol*:**<br><br>***Mae'r polisi hwn / ~~Nid yw'r polisi hwn~~ yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.** |
| Enw: |
| Rae Cornish |
| Adran: |
| Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus – yr Is-adran Diogelwch Cymunedol |
| Dyddiad(au): |
| 26/07/16 |
| Llofnod: RC |
| |
| Dyddiadau adolygu:<br><br>Tachwedd 2016 |

**ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL**

<table>
<tr><td colspan="2">Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad Effaith o'r Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.</td></tr>
<tr><td>Llofnodwyd</td><td>Dyddiad</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol)</td><td>Dyddiad adolygu</td></tr>
<tr><td>Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol)</td><td>Dyddiad adolygu</td></tr>
<tr><td>Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol)</td><td>Dyddiad adolygu</td></tr>
</table>